# CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG

Adroddiad o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd **Nos Lun, 12fed Gorffennaf, 2021**, yng Nghanolfan Bryncroes o 7.30 p.m. hyd 8.35 p.m.

Presennol: Y Cynghorydd Dylan Parry Jones (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Gwenan Griffith (Is-Gadeiryddes)
Y Cynghorwyr Carys H. Evans, Elin Hughes, Ifor Owen, Glyn Roberts, Michael Strain, Glenys Williams, Siôn Williams
Y Cynghorydd Gareth Williams (Y Cynghorydd Sir)
Ymddiheuriad: Y Cynghorwyr Carys E. Williams

## 26. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

**Croesawodd** y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod cyntaf wyneb yn wyneb yn dilyn y cyfnod clo. Diolchodd i'r Cynghorydd Michael Strain am ei barodrwydd i gynorthwyo drwy gynnig cael cyfarfod drwy gyfrwng 'zoom' yn ystod y misoedd diwethaf.

## 27. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Datganwyd buddiant personol gan y Cynghorydd Glyn Roberts yn eitem 29(b) isod.

## 28. CADARNHAU COFNODION

**Cyflwynwyd** a chadarnhawyd cofnodion y Cyngor 14eg Mehefin, 2021. Cynigiwyd gan Y Cynghorydd Glenys Williams ac eiliwyd gan Y Cynghorydd Michael Strain

**Materion yn codi**

**(a)** ***Eitem 18 Cadarnhau Cofnodion (Materion yn Codi)***
***cymal (b) 108 – Materion Ffyrdd a Llwybrau***
Adroddodd Y Cynghorydd Carys H. Evans nad oedd wedi cael cyfle i ymweld a'r camfeydd.
***Eitem 110 cyfarfod wyneb yn wyneb***
***Cyflwynwyd*** cwynion am y gwasanaeth dderbynir yn y Feddygfa ym Motwnnog – methu cael apwyntiadau, cael eu troi yn ôl wrth y ddesg a'r cyngor i ffonio o adref a.y.
Er i gais gael ei wneud i gael cyfarfod a'r Rheolwr ac unrhyw un arall ym Meddygfa Rhydbach, deallwyd na fyddai atebiad yn dod am ychydig gan i'r Rheolwr orfod mynd adref oherwydd amgylchiadau personol ond y byddai'n cysylltu a'r Clarc cyn gynted ac y byddai'n ôl wrth ei waith.
**Penderfynwyd**
a) Nodi'r uchod.
b) Fod llythyr yn cael ei anfon at yr Aelod Seneddol, Liz Saville Roberts, Aelod dros Ddwyfor Meirionydd yn Senedd Cymru Mabon ap Gwynfor, a Luned Morgan, y Gweinidog Iechyd, yn tynnu sylw at y problemau sydd ym Motwnnog a gofynam gael cyfarfod, gyda'r Feddygfa, i geisio datrys y problemau.

***(b) Eitem 20 – Mater Ffyrdd a Llwybrau***
Ni dderbyniwyd unrhyw ymateb gan yr Heddlu ynglyn a'r gor-yrru i lawr allt Mellteyrn, Sarn.

29. **CEISIADAU CYNLLUNIO**
**Cyflwynwyd**
a) Cais C21/0610/32/LL – creu mynedfa gerbydol i'r ffordd – Efail Glandwr, Sarn Mellteyrn.
b) Cais C21/0659/32/LL – codi uned ddiwydiannol fel uned storio newydd yn Saith Bont Garage, Botwnnog.
(Datganodd Y Cynghorydd Glyn Roberts ddiddordeb yn y cais hwn ac ymneilltuodd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth a'r pleidleisio).

**Penderfynwyd** cefnogi'r ddau gais.

30. **MATERION FFYRDD A LLWYBRAU**
**1. Penderfynwyd** anfon y materion a ganlyn i'r Adran Ffyrdd, Cyngor Gwynedd:
a) Tynnu sylw fod y garreg filltir ger Groeslon Siop Lwyd, Bryncroes, wedi ei thorri ac angen ei hadnewyddu.
b) Tynnu sylw at safon gwael y barbio yn ystod y tymor hwn.
c) Y tir comin ym Motwnnog angen ei farbio'n ôl.

**2. Penderfynwyd** gofyn i Mr. J.A. Pozzi farbio Llwybr Bach, Botwnnog.

31. **CEISIADAU ARIANNOL**
**Cyflwynwyd a phenderfynwyd** cyfrannu i'r Mudiadau/Sefydliadau a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Cyfeillion Mynwent Mellteryn | £125 (siec 200734) |
| Ty Gobaith | £ 50 (siec 200735) |

32. **MATERION IECHYD**
Nid oedd unrhyw fater wedi dod i sylw'r Cyngor i'w anfon ymlaen at Gyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru.

33. **AWDURDOD I DALU**
**Nid oedd unrhyw daliad yn ddyledus.**

34. **YMGYNGHORIAD AR REOLIADAU CYMWYESTERAU CLERCOD CYNGHORAU CYMUNED**
**Cyflwynwyd** yr ymgynghoriad uchod. Gellir gweld copi ohono ar y wefan isod:
https://llyw.cymru/rheoliadau-cymwysterau-clercod-cynghorau-cymuned
Eglurodd Y Cynghorydd Carys H. Evans, cynrychiolydd y Cyngor ar bwyllgor Arfon/Dwyfor o Un Llais Cymru na fyddai Cynghorau bach eu maint yn cael eu heffeithio o dan y rheoliadau newydd yma.
**Penderfynwyd** nodi'r ddogfen a'r wybodaeth.

35. **MYNWENT LLANDEGWNNIG**
**Adroddodd** y Clarc i'r gwaith gael ei wneud ym mynwedfa Mynwent Llandegwnnig drwy garedigrwydd y Cadeirydd, Y Cynghorydd Dylan Parry Jones, ac i Mr. Eric Thomas, Tir Dafydd, Bryncroes, roddi'r cerrig yn rhad ac am ddim i wneud y gwaith.

**Diolchwyd** i'r Cynghorydd Dylan Parry Jones yn y cyfarfod a phenderfynwyd anfon llythyr o werthfawrogiad at Mr. Eric Thomas.

36. **COMIN BRYNCROES**

**Cyflwynwyd** cŵyn gan aelod o'r cyhoedd fod y tir ger y Ffynnon ym Mryncroes yn fler ac angen sylw.

**Penderfynwyd** gofyn i Mr. J.A. Pozzi glirio'r tir y ddwy ochr i'r afon.